Gweithdy Graffiti

Dydd Mercher 3 Rhagfyr cafodd wyth disgybl o Ysgol Uwchradd y Rhyl y cyfle i weithio gydag artist graffiti lleol Andy Birch. Treuliodd y disgyblion y bore yn dysgu sut i ddatblygu eu gwaith graffiti arddullaidd eu hunain ac ymchwilio, casglu a chreu syniadau dylunio y gellid eu cynnwys yn y darn olaf i'w ddefnyddio fel y cefndir llwyfan ym Mrwydr y Bandiau fyddai'n cael ei gynnal ar 12 Rhagfyr 2014 yn Neuadd y Dref Y Rhyl.

'Roedd y disgyblion talentog wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn ac wedi dysgu sut i greu haenau a chymysgu paent a'i chwistrellu yn broffesiynol. Cafodd y cynllun terfynol ei ddatblygu ar y cyd ac roedd pawb yn falch tu hwntgyda'r canlyniadau terfynol.

'Mae Andy'n ysbrydoliaeth go iawn; yr wyf yn meddwl fod ei waith yn anhygoel; mae'n gweithio'n llaw rhydd heb unrhyw stensiliau o gwbl; yr wyf yn meddwl ei fod yn arlunydd talentog iawn'. **Harrison Evans - Blwyddyn 9**

'Mae Andy Birch yn ace; fe wnaeth o'i wneud i ymddangos mor hawdd a ni fuaswn wedi byth meddwl y buaswn i'n gallu cymryd rhan mewn creu rhywbeth a fuasai'n cael ei weld gan gymaint o bobl. ' Rwy'n wirioneddol falch o'r darn olaf. ' Roedd yn edrych yn anhygoel'. **Lexy Wilson Mlynedd 9**



Roedd pawb wedi mwynhau'r gweithdy. Hoffai Ms Pilbeam ddiolch i Sarah Dixon, Cydlynydd Cyfoethogi Sir Ddinbych, am drefnu'r digwyddiad a'r gweithdy.

Bydd y darn yn cael ei arddangos fel y cefndir ar gyfer Cystadleuaeth Brwydr y Bandiau yn Neuadd y Dref Y Rhyl, Ddydd Gwener 12 Rhagfyr 2014.